Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-y-gwasanaeth-phrosiectau-noddir-gan-y-rhaglen-datblygu-0** (https://llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-y-diweddaraf-am-y-gwasanaeth-phrosiectau-noddir-gan-y-rhaglen-datblygu-0) i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint** (https://llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

CYHOEDDIAD

# Taliadau Gwledig Cymru (RPW): Y diweddaraf am y gwasanaeth a phrosiectau a noddir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig: Tachwedd 2022

Diweddariad diweddaraf y gwasanaeth ar y Rhaglen Datblygu Gwledig (CDG) 2014-2020 dyddiedig 30 Tachwedd 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 30 Tachwedd 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 30 Tachwedd 2022

# Cynnwys

**Cofrestr Gwariant a Chofnodion Tendro Cystadleuol** (#section-110873)

**Gofyn am newidiadau i brosiectau cymeradwy** (#section-110875)

**Mae angen cais am newid prosiect o hyd os ydych chi eisiau:** (#section-110877)

**Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid (diweddarwyd Tachwedd 2022)** (#section-110879)

**Mae'r newidiadau a nodir isod yn disodli unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd yn flaenorol.**

## Cofrestr Gwariant a Chofnodion Tendro Cystadleuol

Newid pwysig: Ar gyfer eitemau prosiect **dros £500 ac o dan £5,000** a gofnodwyd ar y Gofrestr Gwariant mae yna newid yn y broses i'w chymeradwyo.

- Cyflwyno cofnod Tendro Cystadleuol ar gyfer cymeradwyo gwariant
- **Dim** dogfennau ategol i'w cyflwyno

Nid oes newid ar gyfer eitemau dros £5,000, parhewch i ddefnyddio'r Cofnod Tendro Cystadleuol am eitemau dros £5,000. Bydd dal angen i chi ddarparu dogfennau ategol ar gyfer yr eitemau hyn.

Mae'r Cofnodion Tendro Cystadleuol i'w gweld yn y ddolen ganlynol: **Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020: templed cofnod tendro cystadleuol a chaffael cyhoeddus | LLYW.CYMRU** (https://llyw.cymru/rhaglen-datblygu-gwledig-2014-i-2020-templed-cofnod-tendro-cystadleuol-chaffael-cyhoeddus).

## Gofyn am newidiadau i brosiectau cymeradwy

Gyda llai nag 8 mis yn weddill i gyflawni amcanion eich prosiect y cytunwyd arnynt a chyflwyno eich cais terfynol, ac yn dilyn cyflwyno'r gweithdrefnau newydd ar gyfer cymeradwyo gwariant prosiect, **ni fydd yn ofynnol mwyach i gyflwyno cais newid prosiect o dan yr amgylchiadau canlynol:**

- Symud gwariant prosiect cymeradwy rhwng penawdau gwariant. Yn hytrach, rhaid rhoi esboniad gyda'ch cais os yw gwariant yn fwy na 15% o bennawd cost cymeradwy (bydd hyn yn cael ei ysgogi gan WEFO ar-lein)
- I leihau costau/grant prosiect - bydd hwn yn cael ei adolygu yn yr ymweliad mewnol
- Er mwyn hysbysu am newidiadau i ddangosyddion – bydd y rhain yn cael eu hadolygu a'u gwirio yn yr ymweliad mewnol a chau prosiect

## Mae angen cais am newid prosiect o hyd os ydych chi eisiau:

- Symud gwariant prosiect cymeradwy rhwng penawdau cost cyfalaf a refeniw
- Symud gwariant rhwng blynyddoedd ariannol
- Ymestyn dyddiad gorffen y prosiect
- Gwnewch newidiadau i'ch Costau Symlach.
- Newid y sefydliad sy'n darparu'r prosiect

Nid oes angen i chi gyflwyno Proffil Cyflawni (DPv2) mwyach gyda'ch ail-werthuso.  Bydd yr Uned Datblygu Gwledig yn diweddaru'r proffil cyflenwi ar WEFO ar-lein i adlewyrchu unrhyw newidiadau sydd wedi'u cymeradwyo.

**Y dyddiad cau ar gyfer pob cais am newidiadau i brosiectau cymeradwy (ail-werthuso) yw 31 Ionawr 2023.  Ni dderbynnir unrhyw ail-werthuso ar ôl y dyddiad hwn.**

I ofyn am newid Prosiect rhaid dilyn y broses ganlynol:

Cam 1 - cwblhau Cais Newid Prosiect trwy eich cyfrif RPW Ar-lein i amlinellu'r newidiadau yr hoffech eu gwneud

Cam 2 - unwaith y bydd eich cais yn cael ei brosesu, byddwch yn cael eich hysbysu i Ail-werthuso Newid Prosiect ar-lein yn RPW Ar-lein os oes angen.

Mae'r canllaw i ofyn am newidiadau i brosiectau cymeradwy i'w gweld yn y ddolen ganlynol **Rhaglen Datblygu Gwledig a Chronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop 2014 i 2020: canllawiau ar wneud newidiadau i'r prosiect a gafodd ei gymeradwyo | LLYW.CYMRU** (https://llyw.cymru/rhaglen-datblygu-gwledig-2014-i-2020-canllawiau-ar-wneud-newidiadau-ir-prosiect).

# Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid (diweddarwyd Tachwedd 2022)

Mae ein **Canolfan Gyswllt â Chwsmeriaid RPW** (https://llyw.cymru/cysylltu-thaliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein) ar gael i helpu gyda'ch ymholiadau an y prosiect. Mae'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid yn gweithredu fel a ganlyn:

| Cyfnod | Oriau agor |
|---|---|
| Llun i Gwener | 9am i 4pm |

Lle bo'n bosibl, dylid cyflwyno ymholiadau prosiect arferol trwy eich cyfrif RPW Ar-lein sydd ar gael 24 awr y dydd.

## Cyfnod y Nadolig:

Ni fydd y Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid yn derbyn galwadau ffôn rhwng 26

Rhagfyr a 2 Ionawr 2023. Fodd bynnag, gallwch barhau i gyflwyno ymholiadau trwy eich cyfrifon RPW Ar-lein yn ystod y cyfnod hwn a byddwn yn ymateb cyn gynted â phosibl.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.